

Canlyniadau'r strategaeth Gwella Dysgu ac Addysgu Drwy Dechnoleg

Yn dilyn lansiad y strategaeth Gwella Dysgu ac Addysgu Drwy Dechnoleg (ELTT)¹ ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru yn 2008, defnyddiwyd technoleg mewn ffyrdd dyfeisgar er mwyn cyfoethogi'r amgylchedd dysgu. Mae'r strategaeth hon yn helpu'r sector addysg uwch i fanteisio i'r eithaf ar yr ystod eang o fuddion y gall technoleg eu cynnig i fyfyrwr a staff. Mae'r daflen hon yn dangos yr effaith mae'r strategaeth wedi ei chael ar y profiad o ddysgu ac addysgu.

Effaith technoleg ar fyfyrwr:

- Mae Amgylcheddau Dysgu Rhithwir (ADR/VLEs) wedi darparu **un porth syml** i fyfyrwr er mwyn iddynt gael mynediad at ddeunydd ac adnoddau dysgu sydd, oherwydd eu bod ar-lein, yn gallu cael eu defnyddio pan fo'n

¹ I gael mwy o wybodaeth am y strategaeth Gwella Dysgu ac Addysgu Drwy Dechnoleg gweler www.hefcw.ac.uk/policy_areas/learning_and_teaching/ELTT_cy.aspx.

gyfleus. Roedd yr hyblygrwydd hwn yn aml yn cael ei estyn drwy ddefnyddio cymwysadau, Wi-Fi a/neu Dewch â'ch Dyfais eich Hun (DDH/BYOD), a wnaeth ganiatáu myfyrwr i fanteisio'n llawn ar **e-adnoddau eu sefydliad**.

- Mae Amgylcheddau Dysgu Rhithwir wedi hybu **cydweithio** rhwng staff a myfyrwr, ac yn fwy eang, wedi eu hannog i **rannu arfer orau a phrofiad**. Roedd llawer o strategaethau sefydliadol yn cynnwys fforymau digidol ac, wrth iddynt gael eu normaleiddio, daethant yn ffordd gyffredin a chyfleus o hwyluso **cyfathrebu agos** rhwng darlithwyr, datblygwyr dysgu, technolegwyr dysgu, myfyrwr ac eraill.
- Mae creu Amgylcheddau Dysgu Rhithwir wedi galluogi myfyrwr i roi **adborth sydd â mwy o ffocws** am eu modiwlau a, thrwy e-Asesu, i dderbyn adborth cliriach ar eu gwaith cwrs. Mae hyn wedi helpu i hybu'r broses o **ddatblygu cyrsiau** ac wedi arwain at welliant o ran **bodlonrwydd myfyrwr** mewn nifer o achosion.
- Yn aml, anelwyd y ffyrdd mwy dyfeisgar o ddefnyddio technoleg at wella **ymglymiad ac ymgysylltiad** myfyriwr gyda'i gwrs ac mewn nifer o achosion arweiniodd hyn at fyfyrwr yn dod yn **gyd-gynhyrchwr** yn y broses o ddysgu.
- Yn sgil rhoi **arferion dyfeisgar** ar waith wrth ddefnyddio a chreu technoleg bu myfyrwr

mewn perthynas agosach â'u campysau a gwnaeth helpu i greu amgylchedd gweithio mwy **cyfoes a phwrpasol** .

- Gwellhawyd profiad y myfyrwyr wrth i'r prosiectau ddatblygu a mireinio **sgiliau astudio academaidd a sgiliau seiliedig ar yrfa**, a gwnaeth myfyrwyr gydnabod buddion a pherthnasedd technoleg fel rhan o **gyflawni eu darpariaeth addysg uwch mewn modd effeithiol**.

Effaith technoleg ar staff:

- Mae creu platfformau cydweithiol ar-lein wedi cynorthwyo staff i **ddatblygu deunydd addysgu**. Mae hyn wedi gwella arfer academaidd ar draws adrannau ac wedi caniatáu i'r rheini na fyddent o bosibl yn rhyngweithio fel arall **rannu'u profiadau**.
- Mae Amgylcheddau Dysgu Rhithwir wedi rhoi **mwy o hyblygrwydd** i staff wrth reoli eu cyrsiau a chysylltu â'r myfyrwyr. Mae sicrhau bod y deunydd marchnata ac adnoddau ar gael drwy'r systemau hyn wedi caniatáu i staff **deilwra modiwlau gyda mwy o hyblygrwydd** ac i addasu i awgrymiadau myfyrwyr.
- I'r rhai sy'n llai galluog o ran technoleg, mae mentora a ymgorfforwyd wedi helpu i gynyddu **cysondeb addysgu** ar draws campysau drwy safoni marcio a gwneud y defnydd gorau o'r ystafell ddosbarth.

- Mae **prif ffrydio technoleg** o fewn yr amgylchedd dysgu wedi cynyddu rhyngweithio rhwng staff ac wedi arwain at dimau sy'n **fwy cydlynol** ar draws yr adrannau gwahanol.
- Mae'r arloesiadau a grëwyd gan dechnoleg ym maes dysgu yn golygu bod arferion da o'r fath yn awr yn rhan o'r **broses arferol o ddylunio rhaglen**.

Effeithiau technoleg ar yr iaith Gymraeg:

- Mae datblygu **Adnoddau Addysgol Agored** ar gyfer y porth cyfrwng Cymraeg, Y Porth, wedi hybu **defnydd dyfeisgar o dechnoleg** yn y sector ac yn enghraifft flaenllaw o fewn Cymru a thu hwnt o arferion da wrth hyrwyddo **mynediad agored** i ddeunydd.
- Mae'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir ar Y Porth a rhwydwaith o Ofodau Dysgu cydgysylltiedig wedi galluogi prifysgolion ledled Cymru i **rannu adnoddau a darparu modiwlau ar y cyd**.
- Mae'r Llyfrgell Ddigidol ar Y Porth a safle Apple iTunes U y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn caniatáu cynnwys digidol cyfrwng-Cymraeg a ddatblygwyd gan brifysgolion yng Nghymru i fod yn fwy hygyrch i gynulleidfa fyd-eang drwy **rhannu cynnwys yn agored**.

Effeithiau technoleg ar addysg uwch:

- Mae technoleg yn helpu i gynnig llwyfan er mwyn **arddangos** i'r byd ehangach sut mae **darparwyr addysg yng Nghymru** yn defnyddio technoleg yn ddyfeisgar er mwyn ehangu'r profiad dysgu.
- Mae defnyddio technoleg yn golygu bod darparu addysg uwch **yn fwy hygyrch a hyblyg** i ystod o ddysgwyr ledled Cymru ac, mewn rhai achosion, mae wedi cynyddu cyfraddau **cadw myfyrwyr**.
- Mae arferion da wedi cael eu sefydlu'n **fwy eang ac yn fwy effeithlon** oherwydd y gallu i rannu profiadau a hyrwyddo cydweithio rhwng dysgwyr a'u sefydliad.
- Bu'n bosibl i sefydliadau addysg uwch ddefnyddio **ystod gyfan arbenigedd** eu staff wrth greu **campws ac amgylchedd dysgu modern**.
- Mae fforymau ar-lein yn cynnig **mwyafrwyd** i ddarparwyr addysg uwch ymgysylltu â datblygiadau **ledled Cymru**, megis [Adnoddau Addysgol Agored Cymru](#), ac ymgysylltu â datblygiadau a arweinir gan sefydliadau ledled y DU megis [Jisc](#) a'r [Higher Education Academy](#).

Y Dyfodol:

Mae Gwella Dysgu ac Addysgu Drwy Dechnoleg wedi cael dylanwad cadarnhaol ar nifer o agweddau o'r profiad o ddysgu ac addysgu yng Nghymru. O'r ffyrdd mwyaf cyffredin y defnyddir technoleg, megis Amgylcheddau Dysgu Rhithwir, i'r ffyrdd sy'n torri tir newydd o ran ymgysylltu â'r myfyriwr, mae addysg uwch Cymru yn helpu i wneud gwahaniaeth mawr i'r ffordd mae myfyrwyr yn dysgu ac yn rhyngweithio â'u sefydliadau. Mae buddion y strategaeth hefyd yn helpu i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, gwella dulliau addysgu a chefnogi arferion sefydliadol da. Yr heriau ar gyfer y dyfodol yw adeiladu ar yr arferion a'r arloesiadau a gyflwynwyd eisoes a sefydlu technoleg fel rhan annatod o ddarpariaeth brif ffrwd prosesau ac arferion. Mae rhannu arferion gorau ledled y sector yn hybu'r arloesiadau diweddaraf ac yn helpu i lywio polisi technoleg addysgol ledled y sector addysg yng Nghymru.

